# Amser i oedi
# Amser i weddïo

# Time to pause
# Time to pray

**Crwydro a Rhyfeddu**

Mae tymor y Grawys wedi cychwyn a dyma ni'n gwneud ein ffordd trwy'r wythnosau hyn nes bod amser dathlu'n dychwelyd gyda'r atgyfodiad. Mae hi mor hawdd camu 'mlaen at y Pasg, gan anghofio neu anwybyddu'r wythnosau hyn o'r Grawys, ond byddai gwneud hynny'n golygu ein bod yn colli cymaint o'r hanes, er mor gyfarwydd ydy hi i ni.

Beth mae'r wythnosau hyn o'r Grawys yn eu golygu i chi?

Gall yr wythnosau hyn gynnig yr amser inni ymgysylltu'n weddïgar â'r siwrne mae Iesu, a'r disgyblion, yn ei wneud i Jerwsalem, ac at y groes. I rai, efallai fod y daith yn cynnwys darllen a gweddïo gyda llyfr am y Grawys neu fod yn rhan o gwrs y Grawys; i rai eraill, mae'n bosib mai dyma'r cyfnod i roi'r gorau i rywbeth neu efallai dechrau rhywbeth. Gall dechrau rhywbeth, er enghraifft, olygu neilltuo amser a lle i ymdawelu a gweddïo'n dawel, i fyfyrio ar daith bywyd ein ffydd ein hunain a'r hyn mae hynny'n ei olygu o ran byw o ddydd i ddydd.

Sut ydych chi, neu sut wnewch chi, deithio'n weddïgar trwy'r Grawys?

Yn y Beibl, fe ddarllenwn yn Exodus am yr Israeliaid yn crwydro yn yr anialwch am 40 mlynedd, ac yn yr efengylau, fe welwn Iesu yn yr anialwch am 40 dydd a nos [Mathew 4: 1-11]. Mae crwydro yn gallu golygu dro bach hamddenol, dibwrpas neu fe all olygu camu oddi ar y llwybr gwreiddiol, neu rywbeth yn tynnu'ch sylw oddi ar yr hyn a fwriadwyd. Gall crwydro greu lle inni feddwl, myfyrio ac ystyried llawer o bethau megis ein taith trwy'r Grawys a'r hyn y gall fod Duw'n gofyn inni'i wneud.

Wrth inni grwydro ymlaen, ydyn ni erioed yn neilltuo amser i ryfeddu?

**Wandering and Wondering**

The season of Lent has begun and we now make our way through these weeks until the time to celebrate returns with the resurrection. It's very easy to jump ahead to Easter and forget or ignore these Lenten weeks, but to do so means that we miss so much of the story, however familiar it may be.

What do these weeks of Lent mean to you?

These weeks can offer to us a time to engage prayerfully with the journey Jesus and the disciples make to Jerusalem and the cross. For some the journey may include reading and praying with a Lent book or being part of a Lent course, for some it may be a time to 'give up' or maybe instead to 'take on'. To 'take on' could be to give space for quietness and prayer, for reflection upon our own lives of faith and what that means for day to day living.

How do you, or will you, journey prayerfully through Lent?

In the bible we read in Exodus of the Israelites wandering around the desert for 40 years and in the gospels, we find Jesus in the desert for 40 days and nights [Matthew 4: 1-11]. To wander, can mean a slow leisurely or aimless stroll, it may be a moving away from the intended path, or to become distracted. To wander can open up space to think, reflect, and ponder upon many things such as our Lenten journey and what God may be asking us to do.

When we wander though, do we ever give time to wonder?

Yr emosiwn hwnnw, yr ymdeimlad hwnnw o gael ein synnu, ein syfrdanu, o fod yn ymwybodol o ba mor fach ydyn ni yn nhrefn y cosmos ac eto mor werthfawr i'r Duw'n sy'n ein caru. Mae rhyfeddu yn rhan o'n cysywllt a'n perthynas gyda Duw, mae hi'n rhan o'n bywyd ysbrydol yng Nghrist, ac o'n gweddi.

Efallai, y Grawys hwn, mai dyma'r amser i ddwyn ynghyd y ddwy wedd, crwydro a rhyfeddu, a gweld sut a lle all Duw ein harwain.

Ar Dduw y gweddïaf:
Pan fyddaf yn crwydro oddi ar y llwybr y gelwaist fi i'w ddilyn
ac am yr adegau hynny
pan fyddaf yn crwydro o d'ymyl Di:
maddau imi,
a chyfeiria fi'n ôl.
Pan fyddaf yn anghofio rhyfeddu at hyfrydwch dy greadigaeth,
heb ofal am y byd fel y gofynnaist imi'i wneud:
maddau imi,
a dangos imi'r hyn oll sydd i'w weld a'i wneud.
Pan fyddaf yn crwydro o Dy bresenoldeb
a rhyfeddod dy gariad a'th wirionedd:
maddau imi,
a dwyn fi i fan weddigarwch.

O 1 Mawrth, bydd rhifyn mis nesaf Blwyddyn o Weddi ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru – cofiwch gymryd golwg , a chymryd yr amser i oedi a gweddïo. Bydd y thema a'r gweddïau yn edrych ar y teulu, personol ac eglwys, a darganfod arwyddair gweddïgar.

This is not to wonder what the answer to a question is or what to prepare to eat! Instead, to consider wonder as an emotion - it is to feel, to be stopped in our tracks, to be amazed, be awestruck, be aware at how small we are in the cosmos yet so loved by God. To wonder is a part of our connection and relationship with God, it is a part of our spiritual life in Christ, and of our prayer.

Maybe this Lent, it is to draw together the threads of wandering and wondering and to see where God leads us.

To God I pray:
When I wander off the path you call me to follow
and for the times I stray from your side:
forgive me,
and guide me back.
When I forget to wonder at the beauty of creation
and do not care for the world as you ask of me:
forgive me,
and reveal all I can to see and do.
When I wander away from your presence
and the wonder of your love and truth:
forgive me,
and draw me to a place of prayerfulness.

From 1 March, the next month of the Year of Prayer will be available on the Church in Wales website, please do have a look, and take time to pause and pray. The theme and prayers will look at family, personal and the church, and discovering a prayerful motto.